

Agored Cymru Access to HE - Sociology / Education / Psychology / Criminology / Social Work / English / History Level 3



Yn gryno

Os nad oes gennych gymwysterau ffurfiol bydd y cwrs hwn yn cynnig llwybr carlam at addysg uwch mewn pynciau dyniaethol neu wyddor cymdeithas.

Dyma'r cwrs i chi os...

.. Hoffech wneud cwrs gradd yn y maes hwn

... Ydych eisiau symud ymlaen at eich cwrs gradd yn gynt.

...Oes gennych ddiddordeb brwd yn y dyniaethau a gwyddor cymdeithas

Beth fyddaf yn ei wneud?

Bydd gennych brofiad bywyd y tu hwnt i addysg orfodol ar ôl bod allan o addysg orfodol am



TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

ddwy flynedd neud fwy. Amcan y cwrs yw darparu amgylchedd cyfeillgar a chefnogol i ddatblygu eich gallu a'ch paratoi chi ar gyfer astudio ar lefel brifysgol, gyda llawer o gyn-fyfyrwyr yn mynd ymlaen i ennill graddau a dyfarniadau eraill.

Byddwch yn astudio amrywiaeth o bynciau megis cymdeithaseg, seicoleg, hanes a llenyddiaeth Saesneg. Byddwch hefyd yn astudio unedau sgiliau allweddol mewn cyfathrebu, rhifedd a TGCh.

Mae'r cwrs hwn yn addas i chi os ydych eisiau symud ymlaen at addysg uwch mewn pynciau dyniaethol neu wyddor cymdeithas megis y gyfraith, cymdeithaseg, seicoleg, hanes, llenyddiaeth Saesneg, athroniaeth, gwaith cymdeithasol etc. Mae cymwysterau ar lefel gradd yn y meysydd hyn yn gallu arwain at gyflogaeth mewn meysydd megis addysgu, gwaith cymdeithasol, seicotherapi, gwaith ieuenctid, llywodraeth leol, adnoddau dynol, yr heddlu, proffesiynau cyfreithiol megis cyfreithiwr neu fargyfreithiwr, newyddiaduraeth ac ymchwil gymdeithasol.

Beth a ddisgwylir ohonof i?

Nid oes angen cymwysterau academaidd ffurfiol. Fodd bynnag, mae'r cwrs y gofyn am lefel sylweddol o ymroddiad a chaiff myfyrwyr arfaethedig eu hasesu cyn cael cynnig lle. Byddwch angen lefel o fathemateg (at lefel 1 o leiaf) a Saesneg (lefel 2 o leiaf) ar gyfer y cwrs hwn. Mae TGAU gradd C mewn Saesneg yn ddymunol.

Mae ymrwymiad llawn i bresenoldeb yn angenrheidiol. Mae dangos parch tuag at eraill, brwdfrydedd am y pwnc a hunan gymhelliant yn nodweddion hanfodol rydym yn disgwyl eu gweld ym mhob un o'n dysgwyr. Byddwch yn cael eich asesu yn barhaus ac mae disgwyl eich bod yn parhau gyda'ch astudiaethau a'ch gwaith cwrs. Mae'n rhaid cwblhau pob aseiniad yn llwyddiannus er mwyn ennill y cymhwyster.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Addysg uwch mewn meysydd megis Saesneg, hanes, cyfraith, cymdeithaseg, seicoleg a hyfforddant athrawon, neu gyflogaeth.

Gwybodaeth Ychwanegol

Mae'n rhaid i bob ymgeisydd basio asesiad cychwynnol fel rhan o'r gofynion mynediad.

Apply online at www.coleggwent.ac.uk

studentrecruitment@colegwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

